**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol**
**Minister for Natural Resources**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LF/CS/02014/15

Alun Ffred Jones AC
Cadeirydd
Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

26 Chwefror 2015

Annwyl Alun Ffred Jones AC

**Bil Cynllunio (Cymru)**

Yn ystod y ddadl ar yr egwyddorion cyffredinol ar 10 Chwefror ymrwymais i ysgrifennu atoch mewn ymateb i Adroddiadau Cyfnod 1 y Pwyllgorau gan Bwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, ar y Bil Cynllunio (Cymru).

Rwyf wedi nodi isod fy ymateb i holl argymhellion y ddau Bwyllgor ond, lle mae'r ddau Bwyllgor wedi gwneud yr un argymhelliad, rwyf ond wedi ymdrin ag argymhelliad y Pwyllgor Cyfrifol.

Rwy'n amlinellu sut y bwriadaf ymateb i'r argymhellion ac yn nodi'n glir lle y cytunaf fod angen diwygio'r Bil.  Rwyf hefyd yn nodi lle rwyf eisoes wedi cyflwyno gwelliannau gan y Llywodraeth mewn ymateb i argymhellion y Pwyllgor.

Hyderaf y bydd fy ymatebion yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor wrth graffu ymhellach ar y Bil.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line  0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg  0845 010 4400
Correspondence.Carl.Sargeant@wales.gsi.gov.uk

**Argymhellion o Adroddiad Cyfnod 1 Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar y Bil Cynllunio (Cymru)**

**Argymhelliad 1 - Rydym yn argymell y dylai'r Cynulliad gefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil.**

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am argymell y dylai'r Cynulliad dderbyn egwyddorion cyffredinol y Bil ac rwy'n falch o weld bod y Bil wedi cael cefnogaeth unfrydol yn ystod y bleidlais ar 10 Chwefror.

**Argymhelliad 2 - Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i roi statws cynllun datblygu ffurfiol i Gynlluniau Lleoedd o dan adran 38 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ac y dylai roi rhagor o ystyriaeth i sut y gall cymunedau lleol gael mwy o gyfleoedd i gymryd rhan wrth baratoi pob cynllun datblygu.**

Rwyf wedi cyfarwyddo fy swyddogion i ystyried Cynlluniau Lleoedd er mwyn rhoi cymaint o hyblygrwydd â phosibl i gymunedau wrth lunio Cynlluniau Lleoedd y gellir eu hamrywio er mwyn gweddu i ddyheadau a galluoedd cymunedau gwahanol. Rwyf yn cynnig dull gweithredu cyson ar gyfer cymunedau sy'n gweithio gyda chynghorau lleol fel rhan o Ganllawiau Cynllunio Ategol. Credaf y byddai'r dull hwn o weithredu yn helpu cymunedau lleol i ymgysylltu â'r broses o lunio cynllun ac y byddai'n broses gyflymach, mwy costeffeithiol a llai biwrocrataidd na rhoi statws cynllun datblygu i Gynlluniau Lleoedd. Nododd adroddiad y Grŵp Cynghori Annibynnol (IAG) y byddai'n fuddiol gwella cysondeb proses y Cynlluniau Lleoliad ac y gellid gwneud hynny drwy Ganllawiau Cynllunio Ategol.

**Argymhelliad 3 - Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog osod Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig gerbron y Cynulliad cyn y ddadl ar egwyddorion cyffredinol y Bil.**

Ymrwymais i gyflwyno Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig gerbron y Cynulliad. Fodd bynnag, rwy'n bwriadu cyflwyno diwygiad cyn Cyfnod 3 fel sy'n ofynnol gan Reol Sefydlog 26.28, er mwyn adlewyrchu'r newidiadau i'r Bil sy'n deillio o welliannau Cyfnod 2. Byddaf hefyd yn manteisio ar y cyfle hwn i unioni'r mân wallau a nodwyd yn ystod Cyfnod 1 ac yr ysgrifennais at y Pwyllgor Cyllid yn eu cylch ar 13 Tachwedd 2014.

**Argymhelliad 4 - Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil er mwyn cynnwys diben statudol ar gyfer cynllunio ynddo. Dylai'r diben gael ei ddrafftio ar linellau tebyg i'r diben statudol a argymhellir gan y Grŵp Cynghori Annibynnol yn eu hadroddiad.**

**Ac**

**Argymhelliad 5 - Rydym hefyd yn argymell y dylai'r Bil gael ei ddiwygio i gynnwys darpariaeth a fyddai'n caniatáu i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i'r Awdurdodau Cynllunio Lleol ar sut i gymhwyso'r diben statudol.**

Nid wyf yn bwriadu mewnosod diben statudol ar gyfer cynllunio a datblygu cynaliadwy ar wyneb y Bil Cynllunio. Rwy'n glynu wrth fy natganiadau blaenorol i'r Pwyllgor bod Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a gyflwynwyd gennyf yn darparu'r fframwaith a'r nodau cyffredinol ar gyfer pob corff cyhoeddus, sy'n cynnwys awdurdodau cynllunio lleol a Gweinidogion Cymru pan fyddant yn cyflawni eu swyddogaethau o dan y Deddfau Cynllunio. Mae adroddiad IAG yn rhagflaenu Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac, fel y gwyddoch, argymhellodd y dylid cynnwys unrhyw ddiffiniad o ddatblygu cynaliadwy yn y Bil hwnnw.

**Argymhelliad 7 - Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i adran 70 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, i'w gwneud yn glir i bawb sy'n ymwneud â chynllunio y caiff penderfynwyr roi sylw i'r effaith ar y Gymraeg i'r graddau y bydd yn berthnasol i gais. Dylai unrhyw welliant roi eglurhad ac nid newid y sefyllfa o ran pwysau.**

Rwyf wedi cyflwyno nifer o welliannau sy'n atgyfnerthu'r iaith Gymraeg drwy'r broses o lunio cynllun. Rwyf wrthi'n ystyried yr argymhelliad hwn o ran ei effaith gyfreithiol a'i fwriad polisi ar hyn o bryd.

**Argymhelliad 8 - Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gofyniad bod rhaid cynnal Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg yn achos ceisiadau cynllunio sylweddol penodol.**

Cyflwynais welliant gan y Llywodraeth ar 11 Chwefror er mwyn sicrhau y rhoddir mwy o sylw i'r Gymraeg fel rhan o'r arfarniad o gynaliadwyedd ar gyfer Cynlluniau Datblygu. Felly, rwyf o'r farn y byddai cyflwyno gwelliant o ran ceisiadau cynllunio sylweddol yn achos o ddyblygu ymdrech, am fod y Cynllun Datblygu a'r asesiad effaith sy'n cyd-fynd ag ef yn darparu sail gadarn i benderfyniadau rhesymegol a chyson ar geisiadau ac apelau cynllunio. Mae'r dull gweithredu rwyf wedi'i amlinellu yn ei gwneud yn bosibl i effeithiau cronnol gwaith datblygu gael eu hystyried yn drylwyr ac i fesurau lliniaru addas gael eu nodi a'u rhoi ar waith. Fodd bynnag, derbyniaf y gall fod nifer fach o sefyllfaoedd lle y caiff cynigion datblygu sylweddol eu cyflwyno y tu allan i'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ac nad ydynt wedi bod yn destun asesiad effaith. Mewn ymateb i'r argymhelliad hwn, rwyf wedi cyfarwyddo swyddogion i ddiweddaru polisi a chanllawiau cynllunio er mwyn nodi'r amgylchiadau lle y dylai ACLlau gynnal Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg ar gam y cais cynllunio.

**Argymhelliad 9 - Rydym yn argymell y dylid rhoi rôl ffurfiol i Gomisiynydd y Gymraeg wrth asesu ansawdd asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg, a hynny ar gyfer cynlluniau datblygu a cheisiadau cynllunio sylweddol penodol, er mwyn sicrhau cysondeb. Wrth wneud yr argymhelliad hwn, hoffem fod yn glir ein bod yn galw am rôl i Gomisiynydd y Gymraeg wrth asesu ansawdd asesiadau effaith iaith ac nid rôl yn y broses o ymdrin â cheisiadau cynllunio.**

Cytunaf y dylai awdurdodau cynllunio lleol ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg wrth lunio CDLlau pan fyddant yn cynnal yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, fel y nodir yn TAN 20, ac a gydnabyddir gan y pwyllgor ym mharagraff 55 o'i adroddiad.

At hynny, rwyf wedi gofyn i swyddogion ddiweddaru polisi a chanllawiau cynllunio er mwyn egluro sut a phryd y dylai datblygwyr ac ACLlau hysbysu Comisiynydd y Gymraeg am ddatblygiadau a allai fod yn sensitif. Rwyf o'r farn y dylai rôl y Comisiynydd barhau i fod ar sail anstatudol, sy'n safbwynt a gefnogir gan y Comisiynydd. Fodd bynnag, os bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu y dylai fod cylch gwaith ehangach ar gyfer asesu effeithiau na'r hyn a gynigir yn fy ymateb i argymhelliad 8 hoffwn ystyried ymhellach y posibilrwydd o wneud y Comisiynydd yn ymgynghorai statudol ar gyfer pob cais cynllunio sy'n destun asesiad o'r fath.

**Argymhelliad 10 - Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru roi esboniad eglur o sut y bydd y polisi cenedlaethol arfaethedig ar adnoddau naturiol a chynlluniau adnoddau naturiol sydd wedi'u seilio ar ardaloedd yn cydberthyn i'r gyfundrefn gynllunio cyn i Fil yr Amgylchedd gael ei gyflwyno.**

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am egluro ei fod yn ceisio gwelliant i'r Bil Cynllunio drwy Fil yr Amgylchedd, ar ôl iddo gael ei gyflwyno, er mwyn sicrhau bod cysylltiad clir rhwng cynlluniau Adnoddau Naturiol sy'n seiliedig ar ardaloedd a'r gyfundrefn gynllunio. Rwyf wedi cyfarwyddo fy swyddogion i gydweithio er mwyn drafftio gwelliant i'r ddeddfwriaeth gynllunio briodol drwy Fil yr Amgylchedd yr wyf yn bwriadu ei gyflwyno.

Bydd Polisi Cynllunio yn cyfleu'r gydberthynas rhwng y FfDC, Cynlluniau Datblygu Strategol (CDSau), CDLlau a Pholisi Adnoddau Naturiol ar ôl i Fil yr Amgylchedd gael ei gyflwyno.

**Argymhelliad 11 - Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i sicrhau bod y cynlluniau morol a chynlluniau'r tir yn cyd-fynd yn agos â'i gilydd a'i bod yn ofynnol i'r rhai sy'n gwneud cynlluniau (gan gynnwys Gweinidogion Cymru) roi sylw priodol i'r gydberthynas rhwng y ddau amgylchedd hyn.**

Mae cynlluniau datblygu yn nodi'r cyd-destun ar gyfer gwneud penderfyniadau yn ardal ACLl, yn unol â pholisïau cenedlaethol ac mae'n rhaid iddynt nodi amcanion yr ACLl ar gyfer datblygu a defnyddio tir yn ei ardal weinyddol. Mae'n rhaid i gynlluniau fod yn seiliedig ar dystiolaeth a defnydd darbodus o adnoddau, a diwallu anghenion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd.
Mae'n ofynnol i gynllunwyr ystyried pob cynllun neu strategaeth arall sydd â goblygiadau i'r ardal arfordirol, megis y Cynllun Gofodol Morol neu Gynlluniau Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol.

Mae un o Gyfarwyddebau'r Undeb Ewropeaidd (2008/56/EC, polisi amgylcheddol morol) wedi'i throsi i ddeddfwriaeth y DU. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol lunio strategaeth forol ac i Weinidogion Cymru "in exercising any functions so far as affecting the marine strategy area, (to) have regard to any marine strategy".

Mae'r Undeb Ewropeaidd hefyd yn cyflwyno Cyfarwyddeb 2013/0074 sy'n sefydlu fframwaith ar gyfer cynllunio gofodol morol a rheoli'r arfordirol mewn modd integredig. Mae'r Gyfarwyddeb hon yn rhagnodi bod gweithgarwch rheoli'r arfordir integredig yn ffordd o reoli'r holl brosesau polisi sy'n effeithio ar y parth arfordirol mewn modd integredig, gan ymdrin â rhyngweithiadau tir a môr gweithgareddau arfordirol mewn ffordd gydgysylltiedig, er mwyn sicrhau y caiff tir arfordirol ac ardaloedd morol eu datblygu mewn ffordd gynaliadwy.

Mae Pennod 5 o Bolisi Cynllunio Cymru eisoes yn nodi bod Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol yn ystyriaeth berthnasol wrth lunio cynlluniau a strategaethau defnydd tir, ac wrth wneud penderfyniadau ar waith datblygu yn yr ardal arfordirol.

Felly, nid oes angen deddfu ar gyfer hyn yn y Bil Cynllunio.

**Argymhelliad 12 - Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i gysylltu trefniadau'r cynlluniau trafnidiaeth statudol cenedlaethol a rhanbarthol â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Chynlluniau Datblygu Strategol.**

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol
Mae'n rhaid i gynlluniau datblygu fod yn seiliedig ar dystiolaeth a defnydd darbodus o adnoddau a diwallu anghenion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Mae'n ofynnol i gynllunwyr ystyried amrywiaeth o gynlluniau a strategaethau wrth lunio cynlluniau datblygu gan gynnwys trafnidiaeth, mwynau a gwastraff a bioamrywiaeth er enghraifft. Bydd y cynlluniau a'r strategaethau hyn hefyd yn llywio'r broses o lunio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru nodi eu polisïau mewn perthynas â datblygu a defnyddio tir yng Nghymru fel y gwelant yn briodol. Bydd hyn yn cynnwys y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol. Bydd cysoni'r ddau gynllun yn ei gwneud yn bosibl i brosiectau seilwaith allweddol gael eu cyflawni.

Nid wyf o'r farn y byddai'n ddoeth nodi cynlluniau penodol mewn deddfwriaeth sylfaenol am y gallai'r rhain newid dros amser, neu ddod i ben. Mae'r dull gweithredu presennol yn rhoi hyblygrwydd i ymdrin â pholisïau newydd Gweinidogion Cymru wrth iddynt ymddangos yn y dyfodol.

Cynlluniau Datblygu Strategol
Mae pwerau cyfredol o fewn y Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol, adran 62(5)(g), yn ei gwneud yn bosibl i gynlluniau trafnidiaeth gael eu rhestru fel mater y mae'n rhaid i ACLlau roi sylw iddo wrth ddatblygu eu CDLl. Caiff yr un dull gweithredu ei fabwysiadu ar gyfer CDSau, ac mae adran 5, 60I(6)(f) o'r Bil Cynllunio (Cymru) yn rhoi'r pŵer i wneud rheoliadau er mwyn cyflawni hyn mewn ffordd gymesur ac ymatebol.

**Argymhelliad 14 - Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gadarnhau y bydd y rheoliadau ynglŷn â Chynlluniau Datblygu Strategol yn cynnwys gofyniad bod rhaid i'r cynlluniau hynny roi sylw i'r Cynlluniau Llesiant Lleol perthnasol.**

Rwy'n bwriadu defnyddio rheoliadau i sicrhau bod y cynlluniau lles lleol yn faterion ychwanegol penodol y mae'n rhaid eu hystyried yn ystod y broses o lunio CDSau. Mae Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn diwygio Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 er mwyn sicrhau bod CDLlau yn ystyried cynlluniau lles lleol.

**Argymhelliad 15 - Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog adael y Bil fel y mae wedi'i ddrafftio o ran y Parciau Cenedlaethol ac y dylai ailystyried ei fwriad i gyflwyno gwelliannau i roi'r pŵer i Weinidogion Cymru i greu Byrddau Cydgynllunio a allai gynnwys rhan neu'r cyfan o Barc Cenedlaethol yn y dyfodol.**

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am yr awgrym hwn.  Rwyf wrthi'n ystyried yr argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 16 - Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog ystyried a ddylid cynnwys gofyniad yn y Bil bod rhaid cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd adeg y cynllun datblygu ac yn achos rhai mathau o gais cynllunio.  Dylid diwygio polisi a chanllawiau cysylltiedig er mwyn sicrhau y caiff effeithiau gwaith datblygu ar iechyd eu hystyried yn briodol.**

Mae Rheoliadau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i effeithiau ar iechyd gael eu hystyried yn fanwl wrth lunio pob cynllun a strategaeth. Ar hyn o bryd mae'n gymwys i CDLlau a byddai hefyd yn gymwys i'r CDSau a'r FfDC

arfaethedig. Felly, byddai llunio Asesiad o'r Effaith ar Iechyd annibynnol yn arwain at ddyblygu diangen.

Mae'r Asesiad Amgylcheddol Strategol, sy'n rhan o'r Arfarniad o Gynaliadwyedd, yn rhan o'r sail dystiolaeth sy'n cyfiawnhau'r cynllun ac yn dangos ei gadernid.

Rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys cydweithwyr yn y sector iechyd a Chymdeithas Feddygol Prydain, er mwyn sicrhau y gellir cyflawni amcanion asesiadau o'r effaith ar iechyd heb droi at ddeddfwriaeth sylfaenol.

Bydd y Gyfarwyddeb Asesu Effaith Amgylcheddol Ewropeaidd newydd yn golygu bod mwy o bwyslais ar ystyriaethau iechyd fel rhan o'r Asesiadau Amgylcheddol i ategu ceisiadau ar gyfer gwaith datblygu y mae angen cynnal Asesiad Effaith Amgylcheddol ar ei gyfer. Felly, caiff asesu iechyd ei ymgorffori ym mhroses yr Asesiad Effaith Amgylcheddol pan gaiff y Gyfarwyddeb newydd ei throsi.

**Argymhelliad 18 - Rydym yn argymell y dylai’r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i alluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i benderfynu ar ei weithdrefn ei hun ynglŷn ag ystyried y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft ac, fel rhan o’r gwelliannau hyn, y dylai’r Gweinidog ddileu unrhyw gyfyngiad ar ystyriaethau’r Cynulliad ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, yn enwedig y cyfnod ystyried o 60 diwrnod a bennir yn adran 2 o’r Bil.**

Nid yw'r Bil yn nodi'n fanwl sut y dylai'r Cynulliad graffu ar y FfDC, heblaw am bennu'r cyfnod o amser. Mater i'r Cynulliad yw penderfynu, er enghraifft, p'un a fyddai cymorth gan arbenigwr ym maes cynllunio yn fanteisiol i'w drafodaethau. Gall y Cynulliad benderfynu ar yr union ddull craffu.

Ystyrir bod angen cyfnod penodol er mwyn sicrhau bod y Cynulliad yn cwblhau ei ystyriaeth o'r FfDC a'i fod yn gwneud hynny o fewn cyfnod rhesymol. Y cyfnod presennol yw 60 diwrnod, sy'n dechrau ar y diwrnod y cyflwynir y drafft gerbron y Cynulliad, ac mae'n diystyru unrhyw adeg pan fydd y Cynulliad wedi'i ddiddymu neu ar gau am fwy na phedwar diwrnod. Fel y dywedais wrth y Pwyllgor, rwy'n fodlon ystyried cyfnod gwahanol ond rwyf o'r farn bod angen cyfnod penodol.

**Argymhelliad 19 - Rydym yn argymell bod rhaid i’r Gweinidog ddiwygio’r Bil i’w gwneud yn ofynnol i’r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol gael ei gymeradwyo gan y Cynulliad.**

Rwy'n dal i gredu bod y broses a nodir yn y Bil yn sicrhau y bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn destun craffu trylwyr gan y Cynulliad, ond ei fod yn galluogi Gweinidogion Cymru i adlewyrchu a llywio'r FfDC yn unol â pholisïau a blaenoriaethau'r Llywodraeth.

**Argymhelliad 22 - Rydym yn argymell y dylai’r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i’r Bil er mwyn gwella’r trefniadau cyn ymgeisio sy’n gymwys i geisiadau am Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC) ac amlinellu’r trefniadau hyn yr wyneb y Bil.**

Yn fy marn i, nid yw'n briodol cynnwys y trefniadau cyn ymgeisio ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ar wyneb y Bil.  Materion gweithdrefnol manwl yw'r rhain, nad ymgynghorwyd arnynt ac y mae'n fwy priodol eu cynnwys mewn is-ddeddfwriaeth.  Byddai nodi'r gweithdrefnau hyn mewn deddfwriaeth sylfaenol yn anghyson â threfniadau ar gyfer y broses cyn ymgeisio ar gyfer ceisiadau sylweddol.

Rwy'n bwriadu rhagnodi mewn is-ddeddfwriaeth well trefniadau cyn ymgeisio ar gyfer DAC a fydd yn destun ymgynghoriad.

Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan randdeiliaid, gan gynnwys Energy UK, fod angen i'r prosesau hyn fod yn ymatebol er mwyn darparu ar gyfer newidiadau i'r broses o roi cydsyniad ar gyfer DAC neu ei chysoni â newidiadau i'r broses ymgynghori ar gyfer ceisiadau rheolaidd.

**Argymhelliad 23 - Rydym yn argymell y dylai’r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i’r Bil er mwyn trefnu bod y rheoliadau a fydd yn nodi pa gategorïau o ddatblygiad a ddylai ddod o dan y weithdrefn cyn ymgeisio yn cael eu hystyried o dan y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.**

Nid wyf yn cytuno y dylai'r ddarpariaeth hon fod yn gymwys i'r weithdrefn gadarnhaol, am fy mod o'r farn bod y weithdrefn negyddol yn briodol, am mai mater technegol manwl ydyw a all newid o bryd i'w gilydd.  Caiff y defnydd o'r darpariaethau hyn ei lywio drwy ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Bydd lefel yr ymgysylltu a'r ymgynghori yn sicrhau y bydd y broses yn un dryloyw ac y bydd pawb yn gallu cyflwyno sylwadau arni.  Daeth ymgynghoriad ar yr agweddau manwl ar y weithdrefn ymgynghori cyn ymgeisio i ben yn ddiweddar.

**Argymhelliad 24 - Yn amodol ar unrhyw faterion ynglŷn â chymhwysedd deddfwriaethol, rydym yn argymell y dylai’r Gweinidog ystyried gwneud ymgymerwyr dŵr yn ymgyngoreion statudol. Gofynnwn i’r Gweinidog adrodd yn ôl inni ar ei ystyriaethau ar y mater hwn erbyn diwedd mis Mawrth 2015.**

Rwyf wedi gofyn i swyddogion drefnu bod gwaith wedi'i raglennu sydd eisoes yn mynd rhagddo yn cael ei gwblhau ynghynt er mwyn gwneud Cwmnïau Dŵr a Charthffosiaeth yn Ymgyngoreion Statudol, ar y sail y gellir dod i gytundeb rhyngddynt ynglŷn â'r math o geisiadau a maint y ceisiadau yr ymgynghorir â hwy arnynt. Bydd angen iddynt ddarparu ymatebion o sylwedd o fewn cyfnod penodol ar gyfer prosesau cyn ymgeisio a cheisiadau cynlluniau.  Byddaf yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor erbyn diwedd mis Mawrth 2015 ar hynt y mater hwn.

**Argymhelliad 25 - Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog ddiwygio'r Bil i gynnwys diffiniad o Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol ar wyneb y Bil, gyda darpariaeth a fyddai'n caniatáu i'r diffiniad hwnnw gael ei ddiwygio o dan y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.**

Diben rhagnodi'r trothwyon ar gyfer DAC mewn is-ddeddfwriaeth yw sicrhau y gall y broses ymateb yn gyflym i amgylchiadau sy'n newid, megis pan ddaw rhagor o bwerau datganoledig mewn perthynas â chydsyniadau ynni neu gydsyniadau cynllunio arall i Gymru neu wrth i dechnolegau newydd a chategorïau newydd o waith datblygu gael eu cyflwyno dros amser. Byddaf yn cyhoeddi ymgynghoriad pellach er mwyn nodi'r hyn a ddylai fod yn gyfystyr â DAC cyn i'r rhain gael eu diffinio mewn is-ddeddfwriaeth.

Yn fy marn i, gallai cynnwys y diffiniadau gwreiddiol a newidiadau dilynol mewn deddfwriaeth ar wahân beri dryswch. Mae'r cynnig yn y Bil yn cadw'r meini prawf a'r trothwyon mewn un lle ac yn rhoi mwy o eglurder.

**Argymhelliad 26 - Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog nodi sut mae'n bwriadu penderfynu ar gynlluniau ynni uwchlaw 50MW yng Nghymru os ceir rhagor o ddatganoli. Wrth iddo fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn, rydym yn gofyn i'r Gweinidog fod yn eglur a fydd proses y Gorchymyn Caniatâd Datblygu NSIPS yn cael ei dyblygu yng Nghymru; a fydd y cynlluniau ehangach hyn yn cael eu cynnwys ym mhroses Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol; neu a fydd rhyw broses arall yn gymwys.**

Mae prosiectau ynni sy'n fwy na 50MW yn rhan o gylch gwaith Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Rwyf wedi trosglwyddo eich sylwadau i'm cydweithiwr fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am y portffolio. Serch hynny, bydd y system arfaethedig ar gyfer DAC yn gallu ymdrin â phrosiectau ynni ar y tir sy'n fwy na 50MW, pe bai angen cael caniatâd cynllunio ar eu cyfer.

**Argymhelliad 27 - Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gymryd camau i'w gwneud yn glir y gallai adran 18 o'r Bil gael ei defnyddio i roi pŵer i Weinidogion Cymru i benderfynu ar ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol yn ogystal â chydsyniadau eilaidd/atodol.**

Mae fy natganiad o fwriad y polisi yn nodi'n glir y bydd y cynigion ar gyfer cydsyniadau eilaidd yn gallu ymdrin â chaniatadau cynllunio (datblygu cysylltiedig) sy'n gysylltiedig â phrosiect DAC a detholiad o gydsyniadau eilaidd allweddol eraill. Rwy'n atgynhyrchu'r datganiad yma er hwylustod:

*Nodwyd sawl math o ganiatâd eilaidd, a all fod yn briodol i ategu cais am DAC. Mae'r adran hon yn caniatáu i'r caniatadau hynny gael eu rhagnodi mewn is-ddeddfwriaeth, yn ddarostyngedig i'r amodau yn is-adran 62H(3).*

*Mae'r rhai sy'n debygol o gael eu rhagnodi gan reoliadau i ddechrau fel a ganlyn:*

- *Rheoli gwaith sy'n effeithio ar henebion cofrestredig, rhoi caniatâd henebion cofrestredig (Deddf Henebion a Mannau Archeolegol 1979 (a.2));*
- *Gwaith ar dir comin (Deddf Tiroedd Comin 2006 (a.38));*
- *Cyfnewid tir comin (Deddf Tiroedd Comin 2006 (a.16 ac a.17));*
- *Cyfyngu ar osod rheiliau, trawstiau ac ati dros briffordd (caniatâd) (Deddf Priffyrdd 1980 (a.178));*
- *Ceisiadau am ganiatâd sylweddau peryglus; ceisiadau am ganiatâd heb fod amodau ynghlwm wrth ganiatâd blaenorol a chais i barhau â chaniatâd ar newid rheolaeth tir (Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990 (a.4, a.13 ac a.17));*
- *Rheoli gwaith dymchwel mewn ardaloedd cadwraeth ac awdurdodi gwaith, caniatâd adeilad rhestredig Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (a.8 a 74);*
- *Gofyniad am ganiatâd cynllunio a rhoi caniatâd cynllunio (Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (a.57 ac a.58));* ***[datblygu cysylltiedig]***
- *GPC i gaffael tir i'w ddatblygu (Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (a.226));*
- *Cau neu wyro priffordd (Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (a.247));*
- *Priffyrdd yn croesi llwybr priffordd newydd arfaethedig neu'n mynd i mewn iddo, ac ati. (Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (a.248));*
- *Diddymu hawliau tramwy dros dir a gedwir at ddibenion cynllunio (Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (a.251));*
- *Caffael tir mewn perthynas â phriffyrdd (Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (a.254));*
- *Gorchymyn - llwybrau troed, llwybrau ceffylau neu gilffyrdd cyfyngedig y mae datblygiad yn effeithio arnynt (Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (a.257)).*

*Gall rheoliadau ychwanegol ychwanegu, diwygio neu ddileu cydsyniad o'r rhestr hon.*

**Argymhelliad 29 - Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog egluro a yw'n bwriadu cymryd cyfrifoldeb dros roi trwyddedau amgylcheddol ar gyfer ceisiadau penodol am Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ac, os ydy, y dylai gyflwyno gwelliannau i'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i gydsyniad Cyfoeth Naturiol Cymru gael ei roi cyn y caiff Gweinidogion Cymru wneud penderfyniad ynghylch rhoi trwyddedau amgylcheddol ochr yn ochr â phroses Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.**

Ymgynghorir ar y cynigion ar gyfer yr hyn y dylid ei gynnwys fel cydsyniad eilaidd a chânt eu cynnwys mewn is-ddeddfwriaeth (rwyf wedi cytuno i ystyried gwelliant i'r Bil er mwyn gwneud hyn yn destun gweithdrefn gadarnhaol). Caiff y broses o roi cydsyniad ar gyfer DAC a chysyniadau eilaidd ei nodi mewn is-ddeddfwriaeth hefyd a bydd yn destun ymgynghoriad.

Ystyrir p'un a ddylid cynnwys trwyddedau amgylcheddol ai peidio fel rhan o'r ymgynghoriad hwnnw.

**Argymhelliad 31 - Rydym yn argymell y dylai'r rheoliadau ar gyfer cynllun dirprwyo cenedlaethol, pan gyflwynir nhw, ddilyn y model a gynigwyd gan ymchwil Llywodraeth Cymru ei hun – hynny yw, cynllun cenedlaethol ac iddo rywfaint o hyblygrwydd lleol, a phob cynllun lleol i'w gymeradwyo gan Weinidogion Cymru o hyd.**

Awgrymodd nifer o ymatebion i'r ymgynghoriad diweddar fod angen rhywfaint o hyblygrwydd lleol o fewn y system ddirprwyo genedlaethol.

Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid er mwyn nodi mesurau addas sy'n sicrhau rhywfaint o gysondeb, tra'n parhau i ymateb i amgylchiadau lleol. Er gwaethaf y camau gweithredu hyn, mae proses gymeradwyo ar gyfer cynlluniau dirprwyo awdurdodau lleol yn ychwanegu at gymhlethdod y system gynllunio. Mae'n codi materion sy'n ymwneud â sut y câi cynlluniau eu hasesu a'r meini prawf y dylid eu defnyddio yn yr asesiad hwnnw. Byddai angen cyhoeddi'r meini prawf ar gyfer ystyried cynllun a byddai hyn i bob pwrpas yn 'gynllun dirprwyo' ynddo'i hun. Felly, rwy'n bwriadu ystyried ymhellach sut y gellir ymgorffori hyblygrwydd lleol yn y cynigion dirprwyo ond nid wyf yn bwriadu ystyried un o brosesau cymeradwyo ffurfiol y Llywodraeth.

**Argymhelliad 32 - Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog ddiwygio Memorandwm Esboniadol y Bil er mwyn esbonio'n glir y mathau o benderfyniadau sydd i'w dirprwyo i swyddogion yn defnyddio'r pwerau yn Adran 37 o'r Bil.**

Mewn ymateb i'ch argymhelliad, caiff y Memorandwm Esboniadol ei ddiweddar cyn Cyfnod 3 er mwyn rhoi mwy o eglurder o ran sut rwyf yn bwriadu defnyddio'r pwerau arfaethedig yn adran 37. At hynny, atodir rhestr o'r mathau o geisiadau sydd i'w rhagnodi mewn rheoliadau ac, felly, eu cynnwys yn y cynllun dirprwyo cenedlaethol yn Atodiad A.

Fel y nodais uchod, bydd swyddogion yn ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn nodi nodweddion penodol ceisiadau megis maint y datblygiad a fydd yn gorfod bodloni gofynion dirprwyo.

Ni fydd rheoliadau yn rhagnodi sut mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn gwneud penderfyniadau ynghylch ei swyddogaethau eraill (megis cyflawni amodau cynllunio, gorfodi, Gorchmynion Cadw Coed ac ati). Bydd ACLlau yn parhau i wneud eu trefniadau eu hunain fel y gwnânt ar hyn o bryd, o ran dirprwyo'r swyddogaethau eraill hyn.

**Argymhelliad 33 - Rydym yn argymell y dylai'r rheoliadau ynglŷn â chynllun dirprwyo cenedlaethol, pan gyflwynir nhw, ei gwneud yn ofynnol i gais cynllunio gael ei gyfeirio at bwyllgor pan fydd cyngor tref neu gymuned lleol yn gwrthwynebu cais.**

Daeth ymgynghoriad ar gynigion dirprwyo i ben yn ddiweddar ac mae amrywiaeth eang o randdeiliaid wedi ymateb. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ymgysylltu ymhellach â'r rhanddeiliaid hyn er mwyn cyhoeddi ymgynghoriad ychwanegol yn yr hydref i lywio'r cynigion sydd i'w rhagnodi mewn rheoliadau.

Felly, byddai'n rhy gynnar i dderbyn argymhelliad mor fanwl ar yr adeg hon. Fodd bynnag, ceisir barn rhanddeiliaid ar fanteision ac effaith ymarferol cynnwys eithriad sy'n ymwneud â gwrthwynebiadau gan gynghorau cymuned a thref.

**Argymhelliad 36 - Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i adran 42 o'r Bil i adlewyrchu cynnig Cymdeithas y Cyfreithwyr, ond dylai hyn gynnwys gofyniad bod rhaid i gais diwygiedig gael ei ddychwelyd i'r Awdurdod Cynllunio Lleol at ddibenion ymgynghori eto.**

Nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn am y byddai hyn yn groes i'r ddarpariaeth yn y Bil y bwriedir iddi annog cydberthnasau gwaith gwell a thrafodaethau mwy cynhyrchiol rhwng ymgeiswyr ac awdurdodau cynllunio lleol a hyrwyddo tegwch yn y broses apelio i bob parti.

Ceir disgwyliad y dylai'r awdurdod cynllunio lleol fod wedi ystyried unrhyw welliannau posibl gyda'r ymgeisydd a allai fod wedi gwneud y cais yn dderbyniol cyn i benderfyniad i'w wrthod gael ei wneud. Ar ôl hynny, dim ond fel cam olaf y dylid gwneud apêl ar ôl i'r broses honno gael ei dilyn ac, ar ôl i apêl gael ei gwneud, gall y gymuned ddisgwyl i benderfyniad gael ei gyhoeddi o fewn terfyn amser penodol. Bydd yr argymhelliad hwn yn golygu bod llai o sicrwydd y bydd hyn yn digwydd.

At hynny, gallai'r broses hon gael ei defnyddio sawl gwaith gan ymgeisydd, a fyddai'n arwain at anghysondeb o ran y modd yr ymdrinnir â cheisiadau ac apelau ac yn creu ansicrwydd a dryswch i drydydd partïon a'r gymuned yn gyffredinol; gan greu, i bob pwrpas, ddrws tro ar gyfer y cais.

**Argymhelliad 37 - Rydym yn argymell y dylai Cylchlythyr 23/93 'Dyfarnu costau mewn trafodion cynllunio a thrafodion eraill (gan gynnwys Gorchymyn Prynu Gorfodol)' gael ei ddiweddaru cyn i adran 44 gychwyn i adlewyrchu'r newidiadau sydd wedi'u gwneud gan y Bil hwn ym mhroses adennill costau mewn apelau.**

Rwy'n bwriadu diweddaru Cylchlythyr 23/93 cyn i ddarpariaethau newydd ynglŷn â chostau gael eu cyflwyno.

**Argymhelliad 38 - Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i adran 45 o'r Bil er mwyn gosod terfynau amser gofynnol ar gyfer ymateb i geisiadau am wybodaeth yn sgil apelau, galw ceisiadau i mewn a cheisiadau uniongyrchol.**

Byddwn yn dadlau bod terfynau amser ar gyfer ceisiadau am wybodaeth yn fater gweithdrefnol manwl a'i bod yn fwy priodol eu rhagnodi mewn is-ddeddfwriaeth yn hytrach nag ar wyneb y Bil. Mae'r pwerau yn fwy priodol mewn is-ddeddfwriaeth am fod angen iddynt ganiatáu terfynau amser gwahanol sy'n cyd-fynd â chymhlethdodau gwahanol apelau a cheisiadau.

At hynny, nid yw'r argymhelliad hwn yn hyrwyddo gwneud penderfyniadau amserol am y byddai terfyn amser gofynnol ar gyfer darparu gwybodaeth ychwanegol ar gyfer apelau, ceisiadau a alwyd i mewn neu geisiadau uniongyrchol yn golygu, yn ymarferol, y byddai'n rhaid i ymgeisydd sy'n meddu ar yr holl wybodaeth berthnasol ohirio darparu'r wybodaeth hon tan ar ôl i'r cyfnod lleiaf o amser ddod i ben.

**Argymhelliad 41 - Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i ddileu adran 47 sef darpariaethau a fyddai'n lleihau'r cyfnod amser ar gyfer cyflwyno cais am Faes Tref neu Bentref o ddwy flynedd i un.**

Yn fy marn i, mae blwyddyn yn gyfnod teg i ddarparu ar gyfer cofrestru cais. Ar ôl i'r cais gael ei wneud mae rhagor o amser i baratoi a chasglu gwybodaeth sydd ei hangen i benderfynu ar y cais, sy'n broses ar wahân. Yn Atodiad B ceir esboniad o'r gweithdrefnau ar gyfer cofrestru cais am statws maes tref neu bentref a'r sail dystiolaeth ar gyfer y newid arfaethedig i'r cyfnod cofrestru.

**Argymhelliad 42 - Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i ddileu adran 50 o'r Bil, sef darpariaethau a fyddai'n caniatáu i Weinidogion Cymru bennu ffioedd am geisiadau i ddiwygio cofrestrau tir comin a meysydd tref neu bentref.**

Ceir darpariaeth eisoes yn adran 24 o Ddeddf Tiroedd Comin 2006 sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi ffi a fydd yn daladwy i'r awdurdod y gwneir y cais i gofrestru Maes Tref a Phentref iddo. Mae'r cynnig yn Adran 50 mewn perthynas â ffioedd yn newid teg. Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau yn nodi bod ffioedd hefyd yn daladwy i'r awdurdod penderfynu am gais i gofrestru Maes Tref a Phentref, os bydd yr awdurdod hwnnw yn wahanol i'r awdurdod cofrestru.

Diben cynnwys y ddarpariaeth hon yn y Bil yw fy ngalluogi i sicrhau bod y broses yn addas ar gyfer y dyfodol er mwyn darparu ar gyfer codi ffioedd os bydd amgylchiadau economaidd neu amgylchiadau eraill yn newid. Bydd hyn yn diogelu gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.

**Argymhellion gan Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar y Bil Cynllunio (Cymru)**

**Casgliad 1 - Byddai wedi bod yn ddefnyddiol, yn ein barn ni, pe byddai'r Memorandwm Esboniadol wedi amlinellu'n fanwl sut y mae'r Bil wedi ystyried materion hawliau dynol, o ystyried pa mor berthnasol ydyn nhw i faterion cynllunio.**

Mae materion hawliau dynol o ran y Bil wedi'u hystyried fel rhan o'r cyngor cyfreithiol cyffredinol a roddwyd i Weinidogion. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y cynigion a nodir yn y Bil yn cyd-fynd â Hawliau'r Confensiwn o gofio bod angen i weithgarwch cynllunio, yn ôl ei natur, gydbwyso hawliau'r unigolyn a buddiannau'r gymuned ehangach.

**Casgliad 2 - Credwn y dylid rhoi mwy o fanylion ar wyneb y Bil, yn enwedig o ran materion o bolisi arwyddocaol.**

Nid wyf wedi ymddiheuro am y ffaith bod y Bil hwn yn creu fframwaith; byddwn yn dadlau na ddylid condemnio deddfwriaeth fframwaith ym mhob achos, ceir achosion lle mae manylion y ddeddfwriaeth yn rhy gymhleth ac yn rhy hir i'w cynnwys mewn Deddf, neu am fod y manylion yn gorfod newid o hyd er mwyn adlewyrchu byd sy'n newid yn gyflym. O dan lawer o amgylchiadau bydd angen adolygu a diweddaru'r modd y caiff pwerau a nodir yn y Bil hwn eu harfer. Nid yw'r newidiadau hyn yn rhywbeth rwyf yn fodlon dyfalu yn ei gylch na cheisio, yn anghywir, ei ymgorffori mewn deddfwriaeth sylfaenol, a fyddai wedyn yn gofyn am ragor o ddeddfwriaeth sylfaenol er mwyn sicrhau y gallwn ni fel deddfwrfa gadw i fyny â'r byd go iawn.

Byddai rhagnodi manylion o'r fath ar wyneb y Bil, ar y gorau, yn ei gwneud yn ofynnol i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol yn aml ac, ar y gwaethaf, yn cwtogi ar oes y Bil ei hun. Felly, o dan yr amgylchiadau hyn, credaf yn gryf fod y cydbwysedd rhwng deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth yn gymesur, yn ogystal â bod yn angenrheidiol.

Mae angen i Fil pwysig o'r math hwn greu fframwaith. Mae angen y Bil hwn er mwyn ymdrin â'r heriau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd. Bydd yr is-ddeddfwriaeth sy'n dilyn yn rhoi manylion ac, yn gywir ddigon, bydd yn destun craffu yn ei thro.  Mewn ymateb i sylwadau a wnaed ynghylch y ffaith bod y Bil yn ddarn o ddeddfwriaeth fframwaith, mae'r Bil hwn naill ai'n creu fframwaith ar gyfer cyfreithiau am gynllunio yng Nghymru neu'n gweithio o fewn y fframwaith presennol. Dyma beth y dylai Bil o'r fath ei wneud.

Byddwn hefyd yn dadlau bod rhesymau da dros gael cymaint o ddarpariaethau sy'n dibynnu ar bwerau dirprwyedig.  Y Bil hwn yw rhan gyntaf rhaglen ehangach i ddiwygio cyfreithiau Cynllunio yng Nghymru ac rydym yn defnyddio'r Bil hwn, fel ein cyfle cyntaf i ddefnyddio pwerau deddfwriaethol sylfaenol, i wneud newidiadau sylweddol i'r fframwaith deddfwriaethol presennol er mwyn sicrhau bod swyddogaethau cynllunio yng Nghymru yn gweithio gyda pholisi cynllunio datganoledig ac yn cyflawni ar gyfer pobl Cymru.

**Argymhelliad 1 – Argymhellwn fod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliant i'r Bil yn cymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol at wneud rheoliadau o dan adran 60D(1) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.**

Mae'r pŵer hwn yn ei gwneud yn bosibl i ardal Cynllun Datblygu Strategol a Phanel cyfatebol gael eu sefydlu. Bydd y broses o'u sefydlu yn amodol ar waith gan yr awdurdod cyfrifol neu Weinidogion Cymru a bydd angen ymgynghori arni. Bydd y rheoliadau yn nodi'r manylion na allant fod yn hysbys cyn y broses hon, a fydd yn rhoi'r cyfrifoldeb democrataidd i'r ACLlau i arwain y broses.

Yr hyn sydd wedi'i gadw'n ôl ar gyfer is-ddeddfwriaeth yw materion technegol manwl sy'n ymwneud â niferoedd aelodau ac enw Panel Cynllunio Strategol a fydd yn wahanol gan ddibynnu ar amgylchiadau unigol pob panel. Ystyrir bod y weithdrefn negyddol yn briodol oherwydd bydd hyn yn gofyn am hyblygrwydd am ei bod yn bosibl y bydd angen newid ardal ddiffiniedig neu gyfansoddiad y Panel yn y dyfodol.

**Argymhelliad 5 - Argymhellwn fod y Gweinidog yn egluro diben adran 20 yn ystod y ddadl Cyfnod 1 ar y Bil hwn, gan esbonio sut y bydd yn gweithredu yn ymarferol, gan gynnwys:**

- **y meini prawf i'w defnyddio wrth benderfynu a yw awdurdod lleol yn tangyflawni;**
- **y mathau o ddatblygiadau y bydd yn gymwys iddynt;**
- **pa asesiad y mae wedi'i wneud ynghylch a fyddai darpariaeth debyg i'r un yn adran 62B o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref1990 yn briodol.**

Mae fy natganiad o fwriad y polisi yn rhoi'r rhan fwyaf o'r manylion a geisir mewn perthynas â'r meini prawf y dylid eu defnyddio wrth benderfynu a yw awdurdod lleol yn tanberfformio a'r mathau o ddatblygiadau y bydd yn gymwys iddynt.  Rwy'n atgynhyrchu'r wybodaeth honno yma er hwylustod:

*Mae'r meini prawf a roddir ar waith wrth asesu a phenderfynu a yw ACLl yn tanberfformio, ac felly a ddylai gael ei ddynodi gan Weinidogion Cymru at y diben hwnnw, yn debygol o ddeillio o'r dangosyddion a nodir yn y fframwaith perfformiad arfaethedig sy'n pennu beth sy'n gyfystyr ag ACLl da, a nodwyd yn y papur ymgynghori Cynllunio Cadarnhaol.*

*Maent yn debygol o ganolbwyntio ar berfformiad yr ACLl o ran effeithlonrwydd ac ansawdd penderfynu ar geisiadau cynllunio, a allai gael eu hasesu yn unol ag amserlen penderfynu ar ddatblygiadau mawr, a'r graddau y caiff penderfyniadau o'r fath eu gwrthdroi mewn apêl.*

*Gallai'r meini prawf i'w rhoi ar waith wrth asesu a phenderfynu a ddylid dirymu'r dynodiad gynnwys ystyried y canlynol:*

- *gallu'r ACLl dynodedig i ymdrin yn effeithiol â cheisiadau am ddatblygiadau mawr yn y dyfodol;*
- *effeithiolrwydd yr ACLl dynodedig wrth ymdrin â'r ceisiadau mawr hynny a gyflwynwyd iddynt yn ystod y dynodiad;*
- *graddau'r gwelliant yn erbyn meysydd gwan a nodwyd yn yr asesiad cychwynnol o berfformiad;*
- *perfformiad yr ACLl dynodedig yn gweinyddu ceisiadau a gyflwynir yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru benderfynu arnynt, e.e. ei berfformiad fel ymgynghorai ar geisiadau o'r fath, ac wrth gyflawni unrhyw gamau sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru er mwyn eu helpu i brosesu ac ystyried ceisiadau o'r fath.*

*Disgwylir i'r math o ddatblygiad y bydd yr opsiwn i wneud ceisiadau uniongyrchol yn gymwys iddo yn gyfyngedig i ddatblygiad mawr, gan fod y mathau hyn o gynigion yn hybu twf economaidd ac yn cael yr effaith fwyaf ar gymunedau.*

*Mae'r diffiniad o ddatblygiad mawr yn debygol o fod yn debyg i'r hyn a geir yn erthygl 2(1) o Orchymyn 2012, a oedd yn rhan o'r hierarchaeth ddatblygu yr ymgynghorwyd arni yn y papur ymgynghori Cynllunio Cadarnhaol a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2013 ac sy'n cynnwys:*

- *anhedd-dai o 10 uned neu fwy neu arwynebedd safle o 0.5 ha neu fwy;*
- *adeiladau ag arwynebedd llawr arfaethedig o 1,000 metr sgwâr neu fwy;*
- *datblygiad ar safle o 1 hectar neu fwy.*

*Mae'r Bil yn nodi bod 'cais cymwys' yn cynnwys ceisiadau llawn, amlinellol a materion a gadwyd yn ôl.*

*Nid yw'n cynnwys y gallu i geisiadau sy'n dod o dan Adran 73 o Ddeddf 1990 (ceisiadau i amrywio neu ddileu amodau) gael eu trin fel 'cais cymwys', oni nodir fel arall mewn rheoliadau.*

*Mae ceisiadau i adnewyddu caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad mawr yn ymdrin ag egwyddor datblygu. Felly cynigir, drwy reoliadau, y dylai ceisiadau adnewyddu gael eu hystyried yn geisiadau 'cymwys'.*

*Bydd mathau eraill o geisiadau sy'n dod o dan Adran 73 o Ddeddf 1990, fel amrywio neu ddileu amodau eraill a gwneud diwygiadau perthnasol i ganiatadau cynllunio, yn parhau i gael eu cyflwyno i'r ACLl am benderfyniad.*

Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid er mwyn defnyddio dull graddol, parhaus o bennu targedau. Mae cyhoeddi'r meini prawf yn cefnogi'r dull gweithredu hyblyg hwn yn hytrach na dilyn adran 62B.

**Argymhelliad 8 - Argymhellwn y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i gymhwyso'r weithdrefn negyddol i orchmynion a wneir yn unol ag adran 54(5)(b)(ii) o'r Bil.**

Mae'n un o egwyddorion hirsefydlog y gyfraith nad yw gorchmynion cychwyn yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn. Y rheswm am hyn yw bod y ddeddfwrfa eisoes wedi ystyried ac wedi cymeradwyo'r darpariaethau perthnasol a bod y gorchymyn cychwyn yn gweithredu bwriad y ddeddfwriaeth. Yn fy marn i, ni fyddai angen craffu ymhellach ar ddarpariaethau a fu'n destun craffu manwl o'r fath yn ddiweddar.

Mae'r darpariaethau trosiannol, darfodol ac arbed yn deillio o orchmynion cychwyn a bwriedir iddynt sicrhau proses bontio ddidrafferth a theg rhwng yr 'hen' gyfraith a'r gyfraith 'newydd'. Bydd hyn yn arbennig o berthnasol i faterion cynllunio oherwydd bydd llawer o geisiadau yn fyw ac yn mynd drwy'r broses gwneud penderfyniadau o dan yr 'hen' gyfraith pan ddaw'r gyfraith 'newydd' i rym. Heb ddefnyddio darpariaethau trosiannol ac arbed, byddai'r ceisiadau hyn yn ddarostyngedig i'r gyfraith 'newydd' pan fyddant eisoes wedi dechrau proses sy'n defnyddio'r 'hen' gyfraith. Byddai hyn yn annheg a gallai arwain at gryn dipyn o gostau ychwanegol ac oedi, gyda rhai ymgeiswyr i bob pwrpas yn gorfod dechrau'r broses unwaith eto.

Rwy'n fodlon diwygio'r Memorandwm Esboniadol cyn Cyfnod 3 er mwyn rhoi mwy o fanylion am sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio'r darpariaethau trosiannol, darfodol ac arbed a fydd yn deillio o orchmynion cychwyn a wneir mewn cysylltiad ag un o ddarpariaethau'r Bil hwn yn dod i rym.

**Argymhelliad 9 - Argymhellwn fod y Gweinidog yn cadarnhau'n bendant yn ystod y ddadl Cyfnod 1 nad oes angen cydsyniad y Frenhines na'r Tywysog mewn perthynas â'r Bil, a'i fod, wrth wneud hynny, yn nodi'r rhesymau am ei farn, gan ystyried y safbwyntiau a fynegir gennym ym mharagraffau 130 i 134 o'r adroddiad hwn.**

Fel y nodwyd yn ystod y ddadl ar yr Egwyddorion Cyffredinol rwyf wedi cyfarwyddo fy swyddogion i ysgrifennu at Ei Mawrhydi, y Frenhines er mwyn ceisio cydsyniad penodol mewn perthynas â'r Bil. Ysgrifennodd y Prif Weinidog at Ei Mawrhydi, y Frenhines ar 25 Chwefror 2015. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad cyn diwedd trafodion Cyfnod 3 fel sy'n ofynnol gan Reol Sefydlog 26.67.

Rwyf hefyd wedi cyflwyno nifer o welliannau gan y Llywodraeth, y mae rhai ohonynt yn ymwneud yn uniongyrchol ag argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor a hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i nodi'r rhain isod:

**Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd**

**Argymhelliad 6 - Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'w gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n paratoi cynlluniau gynnal asesiad o effaith cynlluniau datblygu ar y Gymraeg wrth iddyn nhw baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol, Cynlluniau Datblygu Strategol a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. O ran Cynlluniau Lleoedd, dylai asesiad iaith fod yn rhan o arfarniad cynaliadwyedd cyffredinol. Ar gyfer Cynlluniau Lleoedd, dylai asesiad iaith fod yn rhan o arfarniad cyffredinol o gynaliadwyedd.**

Rwyf wedi cyflwyno gwelliant gan y Llywodraeth (rhifau gwelliannau 1 i 3) i Adran 60-62 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, sy'n gwneud y Gymraeg yn elfen orfodol o'r arfarniad o gynaliadwyedd wrth ddatblygu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ac ar bob lefel o'r broses o lunio cynllun.

**Argymhelliad 21 - Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i ddileu hawliau pleidleisio aelodau anetholedig o Baneli Cynllunio Strategol.**

Rwyf wedi cyflwyno gwelliant gan y Llywodraeth (rhifau gwelliannau 7 i 9) er mwyn dileu'r hawliau pleidleisio ar gyfer aelodau anetholedig y Paneli Cynllunio Strategol. At hyn, rwyf wedi cyflwyno gwelliannau gan y Llywodraeth (rhifau gwelliannau 5 a 6) er mwyn dileu'r gofyniad i aelodau a etholwyd yn lleol ddewis yr aelodau anetholedig o restr a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru. Bydd hyn yn galluogi aelodau a etholwyd yn lleol i ddewis aelodau enwebedig ar sail anghenion ac amgylchiadau lleol.

**Argymhelliad 40 - Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno'r gwelliannau i Atodlen 6 (Meysydd tref a phentref: Atodlen 1B newydd i Ddeddf Tir Comin 2006) o'r Bil er mwyn dileu digwyddiadau sbarduno, yn unol â'r amlinelliad yn ei lythyr at y Cadeirydd ar 7 Ionawr 2015 a hynny ar y cyfle cyntaf.**

Rwyf wedi cyflwyno gwelliant gan y Llywodraeth (rhifau gwelliannau 19 i 22) er mwyn cyfyngu ar yr hawl i gofrestru tir fel maes tref neu bentref dim ond pan fydd penderfyniad cynllunio wedi'i wneud.

At hynny, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ystyried gwelliannau mewn perthynas â'r argymhellion canlynol, ac os cânt eu cymeradwyo, rwy'n bwriadu cyflwyno'r gwelliannau hyn cyn gynted â phosibl yn ystod Cyfnod 2 (oni nodir fel arall):

**Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd**

**Argymhelliad 13 - Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i'w gysylltu â Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Dylai'r gwelliannau hyn gynnwys cysylltiad ffurfiol rhwng y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r nodau llesiant.**

Rwyf wedi ymrwymo i wneud cysylltiad ffurfiol rhwng y Bil Cynllunio a Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rwy'n bwriadu gwneud cysylltiad ffurfiol â'r nodau Llesiant a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ar wyneb y Bil Cynllunio. Mae fy swyddogion yn cydweithio er mwyn cyflawni hyn yn ystod Cyfnod 3 y Bil Cynllunio oherwydd bydd hyn yn golygu bod y Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ystyried Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghyfnod 3 a bydd hyn yn sicrhau bod y Bil Cynllunio yn cyfeirio ato'n gywir.

**Argymhelliad 17 - Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i bennu hyd y cyfnod ymgynghori ynglŷn â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft ar wyneb y Bil. Rydym yn argymell y dylai'r cyfnod hwnnw fod yn hirach na 12 wythnos.**

Rwy'n cytuno â'r Pwyllgor y byddai'n ddefnyddiol nodi cyfnod statudol ar gyfer yr ymgynghoriad ffurfiol ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion lunio gwelliant i'w gyflwyno yn ystod Cyfnod 2.

Fodd bynnag, rwyf o'r farn bod terfyn amser o 12 wythnos ar gyfer ymgynghoriad yn briodol; am mai hwn yw'r cyfnod ymgynghori statudol ac am nad hwn fyddai'r unig ymgynghoriad ac ymarfer ymgysylltu a gynhelid wrth lunio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Ar hyn o bryd, mae gan broses y Cynllun Datblygu Lleol gyfnod ymgynghori statudol o chwe wythnos ond, mewn gwirionedd, mae'r gweithgarwch ymgysylltu cyn cynghori yn cymryd llawer mwy o amser.

Fel sy'n digwydd wrth ddatblygu Cynlluniau Datblygu Lleol, cynhelir cyfres o ddigwyddiadau ymgynghori ac ymgysylltu er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Rhoddir manylion y digwyddiadau hyn gan gynnwys sut a phryd y cânt eu cynnal yn y datganiad o gyfranogiad y cyhoedd. Bydd y digwyddiadau ymgynghori ac ymgysylltu yn cynnwys amrywiaeth o ddulliau gweithredu gwahanol gan ddibynnu ar y gynulleidfa a'r cam yn natblygiad y cynllun ond gallai gynnwys sioeau teithiol, holiaduron ac ati.

Bydd y digwyddiadau hyn yn helpu i lywio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft yr ymgynghorid arno'n ffurfiol dros y cyfnod statudol o 12 wythnos. Bydd y datganiad o gyfranogiad y cyhoedd hefyd yn nodi sut y cynhelir yr ymgynghoriad a bydd yn nodi amserlen bendant ar gyfer llunio'r cynllun er mwyn rhybuddio pob rhanddeiliad ymlaen llaw o ddyddiadau ymgysylltu allweddol, gan sicrhau y byddant yn barod i ymgysylltu ar yr adeg briodol.

Gellid defnyddio amrywiaeth o dechnegau ymgysylltu er mwyn sicrhau bod pawb sydd am gymryd rhan yn cael cyfle i gyfrannu at y gwaith o lunio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Gall y math o ddull ymgysylltu a ddefnyddir amrywio yn ôl y gynulleidfa darged megis aelodau o'r cyhoedd, diwydiant datblygu, grwpiau amgylcheddol ac ati, adeg llunio'r cynllun a'r rhan o'r cynllun sy'n cael ei llunio h.y. dynodi neu bolisi cyffredinol. Gallai hyn gynnwys:

- Arddangosfeydd a Sioeau Teithiol
- Gwefan;
- Lansiad gan y Gweinidog;
- Cyfryngau Cymdeithasol;
- Hysbysebion yn y wasg

Gallai gweithgarwch ymgysylltu penodol â Rhanddeiliaid gynnwys:

- Gohebiaeth uniongyrchol;
- Cyfarfodydd a gweithdai wedi'u targedu at randdeiliaid

Gallai gweithgarwch ymgysylltu penodol ag aelodau o'r cyhoedd gynnwys:

- Sicrhau bod dogfennau a'r wefan yn defnyddio iaith glir;
- Sicrhau bod dogfennau yn ddwyieithog;
- Dull mwy anffurfiol o wneud sylwadau megis cyfryngau cymdeithasol, ffurflen ymateb yn seiliedig ar fapiau;
- Sicrhau y caiff gwybodaeth allweddol ei chyflwyno mewn fformat hawdd ei ddefnyddio;
- Holi ac Ateb ar-lein gyda'r Gweinidog;
- Sioeau Teithiol mewn ardaloedd penodol o newid.

Gallai'r dulliau gweithredu hyn fod yn gydgyfnewidiol ar gyfer grwpiau gwahanol ond maent yn nodi'n fras y mathau o dechnegau ymgysylltu sydd ar gael i lywio'r gwaith o lunio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

**Argymhelliad 20 - Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i bennu dros ba gyfnod y mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol i fod yn effeithiol.**

Yn unol â chynlluniau eraill, rwyf o'r farn y byddai'n gyson i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol bennu'r cyfnod y bydd yn effeithiol. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ystyried gwelliant gan y Llywodraeth i'r Bil Cynllunio (Cymru) er mwyn sicrhau bod cyfnod a dyddiad gorffen Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) i Gymru yn cael eu nodi.

**Argymhelliad 28 - Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil er mwyn cynnwys rhestr o'r cydsyniadau eilaidd a allai gael eu penderfynu'n uniongyrchol gan Weinidogion Cymru wrth ochr cais am Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol ar wyneb y Bil, gyda phŵer i ddiwygio'r rhestr drwy benderfyniad cadarnhaol. Os nad yw'r Gweinidog yn awyddus i wneud gwelliant o'r fath, rydym yn credu y dylai gyflwyno gwelliannau i sicrhau y dylai unrhyw orchymyn a wneir er mwyn diffinio'r mathau hyn o gydsyniad ddod o dan y weithdrefn gadarnhaol.**

Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am gynnig opsiwn o ran cymhwyso'r argymhelliad hwn. Rwyf o'r farn na fyddai'n briodol nodi'r rhestr o gydsyniadau eilaidd y gellid penderfynu arnynt mewn cysylltiad â cheisiadau ar gyfer DAC am fod angen i'r broses hon fod yn un ymatebol er mwyn sicrhau ei bod yn cynnwys y cydsyniadau a fydd yn berthnasol i'r ceisiadau ar gyfer DAC yn y dyfodol. Am y rheswm hwnnw, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ystyried gwelliant i'r Bil er mwyn ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol ar gyfer rhagnodi'r cydsyniadau eilaidd mewn perthynas â cheisiadau ar gyfer DAC.

**Argymhelliad 30 - Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil er mwyn sefydlu amserlen hiraf statudol i Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a chydsyniadau eilaidd cysylltiedig gael eu penderfynu gan Weinidogion Cymru ar ôl i gais o'r fath gael ei gyflwyno'n ffurfiol. Mewn achosion lle na chedwir at yr amserlen, dylai'r gwelliannau hyn gynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod datganiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru i esbonio'r rhesymau dros fynd y tu hwnt i'r amserlen.**

Rwyf o'r farn bod hwn yn ddisgwyliad teg ac wedi gofyn i'm swyddogion ystyried gwelliant gan y Llywodraeth i'r Bil i ragnodi terfyn amser statudol ar gyfer penderfynu ar Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ar wyneb y Bil. Rwyf hefyd wedi gofyn i'm swyddogion ystyried gwelliant gan y Llywodraeth a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyflwyno adroddiad blynyddol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar berfformiad Gweinidog Cymru yn erbyn yr amserlen statudol. Credaf y byddai hyn yn gyson â threfniadau i awdurdodau cynllunio lleol ac ymgyngoreion gyflwyno adroddiadau ar eu perfformiad blynyddol.

**Argymhelliad 34 - Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i adran 37 o'r Bil i sicrhau bod y rheoliadau o dan adran 3197B o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi gofynion ynglŷn â maint a chyfansoddiad pwyllgorau cynllunio yn dod o dan y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.**

Oherwydd yr effaith ar awdurdodau cynllunio lleol rwyf wedi gofyn i'm swyddogion lunio gwelliant gan y Llywodraeth i ragnodi y bydd y rheoliadau sy'n ymwneud â maint a chyfansoddiad pwyllgorau cynlluniau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

**Argymhelliad 35 - Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i beri bod y protocol ynglŷn â phwyllgorau cynllunio'n un statudol.**

Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ystyried gwelliant a fydd yn cyflwyno sail statudol i brotocol y pwyllgor cynllunio ar wyneb y Bil.

**Argymhelliad 39 - Rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gadw'r gofyniad yn y ddeddfwriaeth sylfaenol ynghylch Datganiadau Dylunio a Mynediad drwy ddileu adran 27 ac y dylai'r is-ddeddfwriaeth gysylltiedig gael ei diwygio fel mai ar gyfer y datblygiadau mwyaf ac adeiladau rhestredig yn unig y dylai fod yn ofynnol paratoi datganiadau.**

Nododd yr ymgynghoriad diweddar ar Ddylunio yn y Broses Gynllunio fod cefnogaeth sylweddol o blaid cadw'r Datganiadau Dylunio a Mynediad ar gyfer datblygiadau mwy o faint a'r rhai mewn lleoliadau sensitif. Yng ngoleuni'r gefnogaeth sylweddol hon o blaid eu cadw, ac argymhelliad y Pwyllgor, cynigir y dylid cyflwyno gwelliant gan y Llywodraeth sy'n ceisio dileu Adran 27 o'r Bil.

## Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol Deddfwriaethol

**Argymhelliad 7 - Argymhellwn fod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliant i adran 53(1) o'r Bil i ddileu'r geiriau "a ystyrir yn briodol ganddynt mewn cysylltiad â" a mewnosod yn eu lle "a ystyrir yn angenrheidiol ganddynt at y diben o roi effaith lawn i unrhyw ddarpariaethau, neu o ganlyniad i hynny".**

Rwy'n ystyried gwelliant i ddiwygio'r geiriad yn Adran 53(1) er mwyn adlewyrchu sylwadau'r Pwyllgor.

Gobeithio y bydd y wybodaeth a ddarperir yn y llythyr hwn o gymorth i Aelodau'r Pwyllgor wrth iddynt graffu ar y Bil Cynllunio (Cymru) yng Nghyfnod 2. Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi a'r Pwyllgor wrth i'r Bil fynd drwy Gyfnod 2 a hoffwn gynnig cyfarfod er mwyn egluro unrhyw faterion a godwyd uchod a thrafod sut y gallwn gydweithio i ddatblygu'r Bil.

Yn gywir

**Carl Sargeant AC / AM**
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Minister for Natural Resources

CC: Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol